Cymru Ifanc
Young Wales

April 2016

Cliciwch yma am y Gymraeg

---

## Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

---



## Contents


1. State of Caring Survey
2. National Outcomes Framework for Youth Work
3. Wales Volunteer of the Year Awards 2016
4. Participation Workers Updates - Update 31: Two youth work events


---

## State of Caring Survey

Carers UK is calling on carers to complete their State of Caring Survey, the most comprehensive undertaken into carers experiences in the UK.

The survey will take around 20-30 minutes to complete and requests information on carer finances, work, support and health. Responses from the survey will be used to make the lives of carers better, informing changes to legislation in Wales, England, Scotland and Northern Ireland. Particularly, the new Carers Strategy being launched in England.

The survey is open to anyone who has or is looking after a family member, partner of friend who needs care because of old age, illness or disability. Professional care workers are not being asked to partake in the survey.

**The closing date for responses is 15 April 2016.**

Visit the Carers UK website to complete the survey.

---

## National Outcomes Framework for Youth Work

The Welsh Government is consulting for your views on proposals for a new National Outcomes Framework for Youth Work in Wales.

The key purpose of youth work is to facilitate the personal, social and educational development of young people, to enable them to develop holistically and to reach their full potential. Youth workers contribute to the development and well-being of young people and their communities in many ways, as identified in the Welsh Government's paper on well-being, The Wales We Want 2015.

This consultation proposes an approach to youth work that will help youth workers, their managers, trainers and policy makers to plan and evaluate how broad and aspirational aims for well-being can be encompassed in services for young people and to identify the priorities for face to face youth work. The proposals are relevant to providers of Youth Services to young people aged 11-15 years, within both the statutory and voluntary sectors.

Consultation events are being run across Wales, for more information and to book your place please contact YouthWork@wales.gsi.gov.uk.

**The closing date for responses is 9 June 2016.**

Visit the Welsh Government website for more information.

---

## Wales Volunteer of the Year Awards 2016

Do you know of an inspirational individual or group that has made a real difference to their area or to the lives of others? If so, why not nominate them for a Wales Volunteer of the Year Award? It's your chance to get these remarkable people the recognition they deserve.

There are six categories for nominations:

- adult (25 years and over)
- young volunteer (under 25 years)
- 'green' volunteer (individual of any age who volunteers with an environmental organisation or project)
- trustee
- groups (two or more individuals, whether as an informal group or a formally constituted organisation)
- international (for individuals who have volunteered with international partners/organisations in Wales)

For more information about the awards visit the WCVA website.

---

## Participation Workers Updates - Update 31: Two youth work events

During 2016 the Welsh Government is holding a series of National Outcomes Framework for Youth Work events, as well as a Youth Excellence Awards evening.

The National Outcomes Framework consultation events will run on three separate dates in Conwy, Powys and Newport. The consultation is seeking your views on the proposed changes to the framework.

The Youth Excellence awards evening will take place on 24 June 2016 in north Wales. The awards are an opportunity to recognise and celebrate outstanding youth work projects and their workers from across Wales.

For more information about the events and to book a place please click here.

---

Ebrill 2016

## Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.



## Contents


1. Arolwg Cyflwr Gofalu
2. Fframwaith Calyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid
3. Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2016
4. Newyddion diweddaraf Gweithwyr Cyfranogiad - Diweddariad 31: Dau Ddgwyddiad gwaith ieuenctid


## Arolwg Cyflwr Gofalu

Mae Carers UK yn galw ar ofalwyr i gwblhau eu Harolwg Cyflwr Gofalu, yr arolwg

mwyaf cynhwysfawr sy'n cael ei gynnal i brofiadau gofalwyr yn y Deyrnas Unedig.

Bydd yr arolwg yn cymryd rhyw 20-30 munud i'w gwblhau ac yn gofyn am wybodaeth am gyllid, gwaith, cefnogaeth ac iechyd gofalwyr. Caiff ymatebion i'r arolwg eu defnyddio i wneud bywydau gofalwyr yn well, gan lywio newidiadau i ddeddfwriaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn benodol, y Strategaeth Ofalwyr newydd sy'n cael ei lansio yn Lloegr.

Mae'r arolwg ar agor i unrhyw un sy'n edrych ar ôl aelod o'r teulu, cymar neu ffrind sydd angen gofal o ganlyniad i henaint, afiechyd neu anabledd. Nid yw gweithwyr gofal proffesiynol yn cael eu gofyn i gymryd rhan yn yr arolwg.

**Y dyddiad cau am ymatebion yw 15 Ebrill 2016.**

Ewch i wefan Carers UK i gwblhau'r arolwg.

---

## Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori i gasglu eich barn ar gynigion i greu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Prif ddiben gwaith ieuenctid yw hwyluso datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc, er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n gyfannol a chyflawni hyd eithaf eu potensial. Mae gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu at ddatblygiad a llesiant pobl ifanc a'u cymunedau mewn llawer o ffyrdd, fel y nodwyd ym mhapur Llywodraeth Cymru ar lesiant, Y Gymru a Garem 2015.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig dull o ymdrin â gwaith ieuenctid a fydd yn helpu gweithwyr ieuenctid, eu rheolwyr, hyfforddwyr a llunwyr polisi i gynllunio a gwerthuso sut gellir cwmpasu nodau eang, uchelgeisiol ar gyfer llesiant mewn gwasanaethau i bobl ifanc, a nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb. Mae'r cynigion yn berthnasol i ddarparwyr Gwasanaethau Ieuenctid i bobl ifanc 11-15 oed, a hynny yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol.

Mae digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cynnal ledled Cymru; i gael rhagor o wybodaeth ac i gadw lle, cysylltwch â YouthWork@wales.gsi.gov.uk.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 9 Mehefin 2016.**

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

---

## Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2016

**Cymru 2016 yn eich ysgol**

Ydych chi'n adnabod unigolyn neu grwp ysbrydoledig sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'ch ardal neu i fywydau pobl eraill? Os felly, pam na wnewch chi eu henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru? Dyma'ch cyfle chi i helpu'r pobl hynod yna i gael y wobr y maent yn eu haeddu.
Mae 'na chwe chategori o enwebiadau:

- oedolyn (25 oed i fyny)
- gwirfoddolwr ifanc (o dan 25 oed)
- gwirfoddolwr 'gwyrdd' (unrhyw unigolyn sy'n gwirfoddoli gyda mudiad neu brosiect amgylcheddol)
- ymddiriedolwr
- grwpiau (dau neu fwy o unigolion, naill ai fel grwp anffurfiol neu fudiad â chyfansoddiad ffurfiol)
- rhyngwladol (ar gyfer unigolion sydd wedi gwirfoddoli gyda phartner/mudiadau rhyngwladol yng Nghymru)

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan WCVA.

---

## Newyddion diweddaraf Gweithwyr Cyfranogiad - Diweddariad 31: Dau Ddgwyddiad gwaith ieuenctid

Yn ystod 2016 mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, yn ogystal â noson Gwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid.

Bydd digwyddiadau ymgynghori'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn cael eu cynnal ar dri dyddiad gwahanol yng Nghonwy, Powys a Chasnewydd. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith.

Bydd noson gwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid yn digwydd ar 24 Mehefin 2016 yng Ngogledd Cymru. Mae'r gwobrau yn gyfle i gydnabod a dathlu prosiectau gwaith ieuenctid eithriadol a'u gweithwyr o bobl rhan o Gymru.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau ac i gadw lle cliciwch yma.

---